Curatorial Internship

Hours: Part-time, 1-2 days a week on a regular basis. Although the majority of the work will take place in office hours, there will probably be some evening and weekend hours. We are happy to be flexible over days.

Duration: Up to six months

Responsible to: Artistic Director

Remuneration: Unpaid. Local travel expenses and (if working a full day) reasonable lunch expenses will be covered.

Work location: Artes Mundi office, St John's Chambers, High Street Arcade, Cardiff CF10 1BD, with some off-site working required for specific events. Please note that there is no disabled access to our office.

How to apply: Please apply by letter or email (maximum 2 sides of A4 or 1000 words), enclosing your CV and describing your relevant experience, why you want the post, the area or theme that you are interested in researching and your project idea.

Deadline for applications: 5pm Tuesday 23rd August. We anticipate that we will notify shortlisted candidates by phone on Thursday 25th August.

Interview date: Wednesday 7th September 2011

Start date: Immediate, the successful candidate needs to be available to work at least 1 day in week starting 12th September and the following key dates in the diary:

- the weekend of Fri 16th to Mon 19th September 2011
- Wed 12th October 2011

Description of the curatorial internship: Artes Mundi is looking for someone who intends to make a career in the visual arts to work as an intern alongside the Artes Mundi team. A busy programme of activity will provide experience of the sector and opportunities to acquire practical skills that will improve your chances of finding future employment.

Purpose of the role: You will be assisting the Artistic Director, contributing to the curatorial and administrative aspects of Artes Mundi.

<u>Curatorial</u>

- Researching artists in preparation for shortlisting
- Supporting the Selectors and Artistic Director during the shortlisting meeting
- Support on Shortlist announcement event
- Researching artists & other art prizes
- work on the catalogue for Artes Mundi 5

<u>Arts administration</u>

- Day to day office duties
- Database management

- Creating & maintaining Artes Mundi library
- Sorting & logging Artes Mundi 4 nominations material
- Editing Artes Mundi picture library

If you are invited for interview we'd also like you to bring a proposal for a practical project that is relevant to Artes Mundi and which will help you to develop your own research in an area of contemporary visual art that most interests you. This can also be relevant to your studies if applicable. For example you could propose a one day symposium, an artist's talk, the development of new content for the Artes Mundi website, an online event etc.

Supervision and support: We will develop a plan with you and we will support you in regular meetings. You will be clear as to your role, what you are expected to achieve and how we can help you to develop your skills.
We will give you training in tasks that you're not sure about. In particular you will have the opportunity for training in curation, project delivery and IT.

What sort of person are we looking for? Your qualities, skills and experience
This internship is aimed at those with some knowledge and understanding of contemporary visual art but who wish to develop their skills further through training and direct engagement with the arts sector. You will be passionate about contemporary visual art, enthusiastic about helping to engage the public through the Artes Mundi programme and up for a challenge!

This position would benefit someone who has recently graduated or is currently undertaking their undergraduate studies in the creative arts/industries. It would be particularly beneficial to an individual with an interest in curating contemporary visual art.

You will need to be a good communicator on paper and in person and be able to work comfortably with a wide range of people. Good computer skills with the ability to adapt quickly to unfamiliar software will be an advantage. It would be useful if you could also work in Welsh, but this is not essential.

Background: Artes Mundi is an international arts organisation based in Wales. Established in 2002, it is committed to supporting groundbreaking contemporary visual artists from around the world whose work engages with social reality, lived experience and the human condition.

Every two years, working with artists, galleries, art institutions, curators and the British Council, Artes Mundi seeks nominations of artists known in their own country or region but who are still gaining wider international recognition. Two independent selectors review the nominations and shortlist six artists for the biennial exhibition and prize.

The 12 week exhibition features a body of work from each of the shortlisted artists and takes place at the National Museum of Art in Cardiff. A separate panel of five judges awards the Artes Mundi Prize which is one of the world's largest cash prizes in the visual arts. From 2012, Artes Mundi will award £40,000 to the winner and £4,000 each to the other shortlisted artists. A new partnership with Mostyn will also see one of the shortlisted artists present a solo show the year after the exhibition.

For more information visit our website: www.artesmundi.org

Interniaeth Guradurol

Oriau: Rhan-amser, 1-2 ddiwrnod yr wythnos yn rheolaidd. Er y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn ystod oriau swyddfa, mae'n debygol y bydd rhai oriau gyda'r nos ac ar y penwythnos. Rydym yn fodlon bod yn hyblyg o ran pa ddyddiau.

Parhad: Hyd at chwe mis

Yn atebol i'r Cyfarwyddwr Artistig

Taliad Cydnabyddiaeth: Yn ddi-daliad. Treuliau teithio lleol ac (os yn gweithio diwrnod llawn) telir treuliau cinio rhesymol.

Lleoliad y Gwaith: Swyddfa Artes Mundi, Siambrau Sant Ioan, Arcêd y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1BD, a bydd gofyn gweithio rhywfaint oddi ar y safle ar gyfer digwyddiadau penodol. Dylid nodi nad oes mynediad i'n swyddfa i bobl ag anableddau.

Sut i wneud cais: Dylech wneud cais trwy lythyr neu e-bost (2 ochr A4 neu 1 000 o eiriau fan bellaf), gan amgáu'ch CV ac yn disgrifio'ch profiad perthnasol, pam rydych eisiau'r swydd, y maes neu'r thema yr hoffech ymchwilio iddo a syniad eich prosiect.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5pm ddydd Mawrth 23 Awst. Rydym yn disgwyl y byddwn yn rhoi gwybod i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer trwy ffonio ddydd Iau 25 Awst.

Dyddiad cyfweliad: ddydd Mercher 7 Medi 2011

Dyddiad cychwyn: Ar unwaith, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod ar gael i weithio o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 12 Medi a'r dyddiadau allweddol canlynol yn y dyddiadur:

- penwythnos ddydd Gwener 16 hyd at ddydd Llun 19 Medi 2011
- ddydd Mercher 12 Hydref 2011

Disgrifiad o'r Interniaeth Guradurol: Mae Artes Mundi'n chwilio am rywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y celfyddydau gweledol i weithio fel intern ochr yn ochr â thîm Artes Mundi. Bydd rhaglen weithgarwch fyrlymus yn darparu profiad o'r sector a chyfleoedd i ennill sgiliau ymarferol a fydd yn gwella'ch cyfleoedd wrth gael hyd i gyflogaeth yn y dyfodol.

Pwrpas y rôl: Byddwch yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig, yn cyfrannu i agweddau curadurol a gweinyddol Artes Mundi.

<u>Curadurol</u>

- Ymchwilio i artistiaid wrth baratoi at lunio'r rhestr fer
- Cynorthwyo'r Detholwyr a'r Cyfarwyddwr yn ystod y cyfarfod i lunio'r rhestr fer
- Rhoi cefnogaeth i ddigwyddiad cyhoeddi'r rhestr fer
- Ymchwilio i artistiaid a gwobrau celf eraill
- Gwaith ar y catalog ar gyfer Artes Mundi 5

<u>Gweinyddu'r Celfyddydau</u>

- Gorchwylion beunyddiol yn y wyddfa
- Rheoli cronfa ddata

- Creu a chynnal llyfrgell Artes Mundi
- Didoli a chofnodi deunydd enwebu Artes Mundi 4
- Golygu llyfrgell luniau Artes Mundi

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, hoffem i chi ddod â chynnig ar gyfer prosiect ymarferol sy'n berthnasol i Artes Mundi ac a fydd yn eich helpu i ddatblygu'ch ymchwil eich hun mewn maes yn y celfyddydau gweledol cyfoes sydd o'r diddordeb pennaf i chi. Os yn gymwys, gallai hyn hefyd fod yn berthnasol i'ch astudiaethau. Er enghraifft, gallech gynnig symposiwm undydd, sgwrs gan artist, datblygu cynnwys newydd ar gyfer gwefan Artes Mundi, digwyddiad ar-lein ac yn y blaen.

Goruchwyliaeth a chymorth: Byddwn yn datblygu cynllun gyda chi a byddwn yn eich cynorthwyo mewn cyfarfodydd rheolaidd. Bydd eich rôl yn glir i chi a'r hyn y disgwylir i chi ei gyflawni a sut y gallwn eich helpu i ddatblygu'ch sgiliau.
Byddwn yn rhoi hyfforddiant i chi yn y tasgau nad ydych yn siŵr yn eu cylch. Yn benodol, bydd gennych y cyfle i gael hyfforddiant mewn curadaeth, cyflewni prosiectau a TG.

Pa fath o unigolyn rydyn ni'n chwilio amdano neu amdani? Eich rhinweddau, sgiliau a phrofiad
Anelir yr interniaeth hon at y rheini sydd â pheth gwybodaeth a dealltwriaeth am gelf weledol gyfoes ond sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ymhellach drwy hyfforddiant ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sector celfyddydau. Byddwch yn rhywun sydd â diléit o'r galon mewn celf weledol gyfoes, yn frwd dros helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy raglen Artes Mundi ac yn barod am her!

Byddai'r swydd hon yn fuddiol i rywun sydd wedi graddio'n ddiweddar neu sydd, ar hyn o bryd, yn ymgymryd â'u hastudiaethau israddedig yn y celfyddydau/diwydiannau creadigol. Byddai o fudd arbennig i rywun sydd â diddordeb mewn curadu celf weledol gyfoes.

Bydd yn rhaid i chi allu cyfathrebu'n dda ar bapur ac ar lafar a bod yn gyfforddus wrth weithio ag amrywiaeth eang o bobl. Bydd sgiliau cyfrifiadurol da ynghyd â'r gallu i addasu'n gyflym i feddalwedd anghyfarwydd yn fantais. Hefyd byddai'n ddefnyddiol pe gallech weithio yn y Gymraeg, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Cefndir: Sefydliad celfyddydau rhyngwladol yw Artes Mundi sydd â'i gartref yng Nghymru. Wedi'i sefydlu yn 2002, mae'n ymrwymedig i gefnogi artistiaid gweledol cyfoes o bob cwr o'r byd sy'n torri tir newydd y mae eu gwaith yn ymgysylltu â realiti cymdeithasol, profiad y mae pobl wedi byw drwyddo a'r cyflwr dynol.

Bob dwy flynedd, bydd Artes Mundi gan gydweithio ag artistiaid, orielau, sefydliadau celf, curaduriaid a'r *British Council*, yn ceisio am enwebiadau artistiaid sy'n adnabyddus yn eu gwledydd neu eu rhanbarthau eu hunain ond sydd o hyd yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ehangach. Bydd dau ddetholydd rhyngwladol yn adolygu'r enwebiadau gan ddewis chwe artist ar gyfer y wobr a'r arddangosfa eilflwydd.

Mae'r arddangosfa 12 wythnos ar ei hyd yn cynnwys darnau o waith gan bob un o'r artistiaid ar y rhestr fer ac fe'i cynhelir yn Amgueddfa Gelf Cymru yng Nghaerdydd. Mae panel ar wahân sy'n cynnwys pum beirniad yn cyflwyno Gwobr Artes Mundi, sef un o wobrau ariannol mwyaf y byd yn y celfyddydau gweledol. O 2012, bydd Artes Mundi'n rhoi £40,000 i'r enillydd a £4,000 yr un i'r artistiaid eraill ar y rhestr fer. Bydd partneriaeth â Mostyn hefyd yn gweld un o'r artistiaid ar y rhestr fer yn cyflwyno sioe undyn/un-ddynes yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr arddangosfa.

Am fwy o wybodaeth, ewch at ein gwefan:: www.artesmundi.org